

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Archwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap

Dyddiad yr ymweliad 27 Hydref 2011

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Heol y Fan
CAERFFILI
CF83 3ED**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 029 20 928850
Ebost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 029 20 928877
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

	Rhif y Dudalen
1. Cyflwyniad	1
2. Canfyddiadau: Cryfderau, Meysydd i'w Gwella Ymhellach a Chamau y mae Angen eu Cymryd	3
2.1 Amgylchedd Cyffredinol Ysbyty Treforys	3
2.2 Ward F, Adsefydlu ar ôl Strôc	3
Yr Amgylchedd	3
Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog	5
Cyfarpar a Storfeydd	6
Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff	7
2.3 Yr Uned Penderfyniadau Clinigol – Meddygaeth	7
Yr Amgylchedd	7
Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog	9
Cyfarpar a Storfeydd.....	9
Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff.....	10
2.4 Ward W, Trawma ac Orthopedig	10
Yr Amgylchedd	10
Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog	12
Cyfarpar a Storfeydd	12
Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff	13
Sylwadau Cyffredinol	13

1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Mai 2006, mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y cyhoedd a chleifion ar draws Cymru, cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ei bwriad i gynnal archwiliadau dirybudd, ar hap, o lanweithdra mewn sefydliadau gofal iechyd ar draws Cymru. Cynhelir rhaglen o ymweliadau dirybudd bob blwyddyn.

1.2 Ystyrir gwybodaeth o sawl gwahanol ffynhonnell sy'n berthnasol i'r agenda hon, ac fe'i defnyddir i bennu cyfeiriad y rhaglen archwiliadau ar hap. Rydym yn parhau i adolygu'r rhaglen yn gyson gan ystyried unrhyw wybodaeth newydd a ddaw i'n sylw.

1.3 Fel rhan o'n Harchwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap, rydym yn cynnal trafodaethau â'r staff clinigol ac yn arsylwi manau clinigol yn uniongyrchol. Mae'r rhestr gyfeirio a ddefnyddir i lywio'r archwiliadau wedi ei seilio ar y pecyn archwilio Rheoli Haint a ddatblygwyd gan y Gymdeithas Atal Heintiau (IPS).

1.4 Mae mwy o wybodaeth am AGIC, ei hymweliadau ar hap a'r pecyn archwilio a ddefnyddir i'w gweld yn www.hiw.org.uk

Ymweliad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

1.5 Ar 27 Hydref 2011, ymwelodd AGIC ag Ysbyty Treforys, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, gan gynnal archwiliadau glanweithdra o'r manau canlynol:

- Ward F, Adsefydlu ar ôl Strôc
- Yr Uned Penderfyniadau Clinigol
- Ward W, Trawma ac Orthopedig

1.6 Nodir ein canfyddiadau yn adrannau canlynol yr adroddiad hwn. Rydym yn tynnu sylw at gryfderau, yn ogystal â meysydd y mae angen eu gwella ymhellach, ac yn argymhell camau gweithredu. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd baratoi cynllun

gwella i fynd i'r afael â'r meysydd allweddol sy'n destun pryder, a'i gyflwyno i AGIC o fewn pythefnos i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

2. Canfyddiadau: Cryfderau, Meysydd i'w Gwella Ymhellach a Chamau y mae Angen eu Cymryd

2.1 Amgylchedd Cyffredinol Ysbyty Treforys

Ystyriwyd bod safon glanweithdra amgylchedd cyffredinol yr ysbyty yn dderbyniol. Gwelwyd nad oedd annibendod nac eitemau amhriodol yn y coridorau cyhoeddus a'r llwybrau cerdded.

2.2 Ward F, Adsefydlu ar ôl Strôc

Yr Amgylchedd

Ymwelwyd â'r ward hon yn flaenorol ym mis Medi 2010 a chanfuwyd bod safon y glanweithdra'n is na'r disgwyl. Nodwyd rhai gwelliannau wrth i ni ddychwelyd, megis ailosod y llawr ac ailbaentio, ond roeddem yn dal i fod o'r farn nad oedd safon glanweithdra'r ward cystal ag y gallai fod oherwydd y gwelwyd llwch ar lefelau uchel ac isel. Yn siomedig, prin oedd y dystiolaeth fod y materion a nodwyd yn ystod ein hymweliad blaenorol wedi derbyn sylw gan y Bwrdd Iechyd, ac roedd nifer o faterion newydd wedi codi hefyd. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y materion canlynol yn derbyn sylw ac yn cael eu nodi yn y cynllun gweithredu y bydd yn ofynnol iddynt ei gyflwyno i AGIC.



- Canfuwyd bod yr ystafell glinigol yn anniben gyda gormod o eitemau'n cael eu cadw ynddi, ac roedd nifer o'r blychau storio'n llychlyd.



- Canfuwyd bod yr ystafell ymolchi'n anniben a bod nifer o eitemau'n cael eu cadw ynddi. Dylid symud yr eitemau amhriodol oddi yno fel y gellir cyrraedd cyfleusterau'r ystafell ymolchi'n rhwydd.



- Roedd comodau wedi'u gosod yn barod i'w defnyddio, ond wrth eu harchwilio gwelwyd nad oeddent wedi'u glanhau i safon dderbyniol. Dylid sefydlu dull cyson o lanhau comodau a gosod arwydd amlwg arnynt i ddangos bod y comôd yn lân ac yn barod i'w ddefnyddio.

Mae ystafell gawod ar y ward na ddefnyddir mwyach gan nad yw'r cyfleusterau cawod sydd ar gael yn addas. Dylid cael gwared ar y gawod bresennol a sicrhau bod cyfleusterau mwy priodol ar gael.

Gwelwyd eitemau ymolchi cymunedol ar y ward. Dylid cael gwared ar y rhain oherwydd y gallent gael eu halogi pe byddai nifer o gleifion yn eu defnyddio.

Nid oedd digon o sinciau golchi dwylo clinigol ar gael ar gyfer nifer y gwelyau ar y ward, ac nid yw hyn yn dderbyniol. Er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol, dylid sicrhau bod sinciau golchi dwylo clinigol ychwanegol ar gael ar y ward drwyddi draw.

Nid yw'r sinc golchi dwylo yn yr ystafell glinigol yn dderbyniol gan nad yw'n cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd (HTM) 64. Dylai'r tapiau ar bob sinc golchi dwylo glinigol fod yn rhai a weithredir gan yr arddwrn neu'r penelin, neu gan synhwyrdd. Dylai fod yn rhwydd agor neu gau'r tapiau heb halogi'r dwylo.

Gwelwyd cynhyrchion glanhau a meddyginiaeth heb eu cadw dan glo yn yr ystafell glinigol. Cymerwyd camau brys i fynd i'r afael â hyn yn ystod ein hymweliad. Dylai'r staff sicrhau bod yr holl feddyginiaeth neu sylweddau peryglus bob amser dan glo.

Canfuwyd bod yr ystafell ddomestig yn anniben, bod y cyfarpar yn fudr a bod nifer o eitemau amhriodol yn cael eu cadw yno. Dylai'r staff sicrhau bod yr holl gyfarpar domestig yn cael ei storio'n lân ac nad oes unrhyw eitemau amhriodol yn yr ystafell.

Gwelwyd hylif glanhau cyffredinol wedi'i wanhau yn yr ystafell ddomestig hefyd. Ni ddylid gwanhau hylif glanhau a'i gadw mewn cynwysyddion cyffredinol; dylid labelu'r eitemau hyn a rhoi'r dyddiad arnynt yn glir. Dylid cael gwared ar yr eitemau hyn.

Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog

Roedd yr holl ddillad gwely a llieiniau glân yn cael eu cadw mewn cwpwrdd dynodedig ar y ward. Fodd bynnag, gwelwyd dillad gwely a llieiniau ar lawr y cwpwrdd. Dylid symud yr eitemau hyn oddi yno oherwydd y dylid cadw'r holl ddillad gwely a llieiniau uwchben lefel y llawr.

Roedd nifer o eitemau glân wedi'u gosod ar y troli dillad gwely a llieiniau budron, ac mae hyn yn annerbyniol. Dylid gwahanu eitemau budron a glân yn briodol.



- Gwelwyd nifer o fagiau gwastraff clinigol a oedd yn orlawn a heb eu clymu'n gywir. Ni ddylai bagiau gwastraff fod yn fwy na thri chwarter llawn a dylid defnyddio cwlwm 'gwddf alarch' er mwyn sicrhau bod y bag wedi'i glymu'n ddiogel.

Nid oedd posteri ynglŷn â gwastraff ar gael ar y ward yn rhoi gwybod i'r staff sut i wahanu gwastraff yn briodol. Dylid arddangos posteri ynglŷn â gwastraff er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer trin a gwaredu gwastraff yn briodol.

Roedd y ward yn cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol ar gyfer trin a gwaredu eitemau miniog yn ddiogel. Fodd bynnag, gwelwyd bod staeniau ar hambyrddau eitemau miniog.

Cyfarpar a Storffeydd

Canfuwyd bod cyfarpar megis y troli dadebru, teclynnau codi ac offer ocsigen a sugno yn llychlyd. Roedd rhaglen lanhau ysgrifenedig wedi'i sefydlu ar y ward, ond nid oedd yn cael ei llenwi gan y staff fel mater o drefn. Dylai'r staff sicrhau bod y rhaglenni glanhau'n cael eu llenwi fel mater o drefn fel ei bod yn eglur pwy sy'n gyfrifol am lanhau beth a pha bryd.



- Gwelwyd bod staeniau ar drolïau triniaeth.



- Roedd powlenni ymolchi'r cleifion yn cael eu cadw yn yr ystafell amlbwrpas eitemau budron. Mae hyn yn annerbyniol. Dylid eu cadw mewn ystafell lân oherwydd y gallai'r arfer presennol achosi risg o halogiad.

Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff

Canfuwyd nad oedd gel/ewyn alcohol bob amser ar gael ar y pwynt gofal. Gellir ei gwneud yn haws cydymffurfio ag arferion hylendid dwylo trwy leoli cynhyrchion rhwbio dwylo â sail alcohol iddynt yn briodol, yn union wrth ymyl manau'r cleifion. Gellid eu lleoli wrth draed gwely'r claf neu ar ei gwpwrdd bach.

Nid oedd pob aelod o'r staff y siaradwyd â hwy yn ystod yr ymweliad wedi cael hyfforddiant ar reoli heintiau o fewn y 12 mis diwethaf. Dylai pob aelod o'r staff gael hyfforddiant/diweddariadau ar reoli heintiau bob blwyddyn, a dylai hyfforddiant o'r fath gynnwys hylendid dwylo ymarferol.

Roedd gwybodaeth y staff am arferion hylendid dwylo yn anghyson. Roedd y staff yn dueddol o orddefnyddio menig a dibynnu arnynt ar gyfer pob cyswllt â chleifion. Dylid hyfforddi'r staff ynglŷn â pha bryd y mae'n briodol golchi eu dwylo, defnyddio gel/ewyn alcohol a phryd i wisgo menig.

2.3 Yr Uned Penderfyniadau Clinigol – Meddygaeth

Yr Amgylchedd

Canfuwyd bod safon glanweithdra'r ward yn dderbyniol yn gyffredinol.



- Mae'r ward yn defnyddio llenni cawod tafladwy. Ystyrir bod hyn yn arfer nodedig.



- Roedd staff y ward yn defnyddio tâp i ddangos pryd y glanhawyd y padelli gwely ddiwethaf. Ystyrir bod hyn yn arfer nodedig.



- Canfuwyd bod yr ystafell ddomestig yn anniben, bod y cyfarpar yn fudr a bod nifer o eitemau amhriodol yn cael eu cadw yno. Dylai'r staff sicrhau bod yr holl gyfarpar domestig yn cael ei storio'n lân ac nad oes eitemau amhriodol yn yr ystafell.

Archwiliwyd y comodau ar y ward, a chanfuwyd eu bod i gyd yn lân ac yn barod i'w defnyddio. Mae'r ward wedi buddsoddi mewn tâp a osodir o amgylch y comôd i ddangos ei fod yn barod i'w ddefnyddio.

Nid oedd digon o sincipiau golchi dwylo clinigol ar gael ar gyfer nifer y gwelyau ar y ward, ac nid yw hyn yn dderbyniol. Er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol, dylid sicrhau bod sincipiau golchi dwylo clinigol ychwanegol ar gael ar y ward drwyddi draw.

Gwelwyd nad oedd yr oergell gyffuriau yn yr ystafell glinigol wedi ei chloi. Cymerwyd camau brys i fynd i'r afael â hyn yn ystod ein hymweliad. Dylai'r staff sicrhau bod yr holl oergelloedd a chypyrddau sy'n cynnwys meddyginiaeth neu sylweddau peryglus bob amser dan glo.

Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog

Roedd yr holl ddillad gwely a llieiniau glân ar y ward yn cael eu cadw'n briodol mewn man dynodedig. Roedd dillad gwely a llieiniau budron yn cael eu cadw ar wahân mewn bagiau cod lliw a'u storio mewn man priodol cyn eu gwaredu.

Defnyddir biniau cludo gwastraff ar y ward er mwyn trosglwyddo gwastraff o fannau'r cleifion, ond canfuwyd bod y rhain yn fudr.



- Gwelwyd nifer o fagiau gwastraff clinigol a oedd yn orlawn a heb eu clymu'n gywir. Ni ddylai bagiau gwastraff fod yn fwy na thri chwarter llawn a dylid defnyddio cwlwm 'gwddf alarch' er mwyn sicrhau bod y bag wedi'i glymu'n ddiogel.

Roedd biniau gwastraff clinigol yn cael eu cadw mewn ystafell y gellir ei chyrraedd yn rhwydd o fannau cyhoeddus. Canfuwyd nad oedd modd cloi'r drws oherwydd bod y clo wedi torri. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ystafelloedd gwastraff clinigol o fewn manau cyhoeddus bob amser dan glo.

Nid oedd posteri ynglŷn â gwastraff ar gael ar y ward yn rhoi gwybod i'r staff sut i wahanu gwastraff yn briodol. Dylid arddangos posteri ynglŷn â gwastraff er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer trin a gwaredu gwastraff yn briodol.

Cyfarpar a Storfeydd

Canfuwyd bod cyfarpar megis y weithfan symudol, y troli dadebru a chymhorthion sefyll yn llychlyd. Roedd rhaglen lanhau ysgrifenedig wedi'i sefydlu ar y ward, ond nid oedd yn cael ei llenwi gan y staff fel mater o drefn. Dylai'r staff sicrhau bod y

rhaglenni glanhau'n cael eu llenwi fel mater o drefn fel ei bod yn eglur pwy sy'n gyfrifol am lanhau beth a pha bryd.

Gwelwyd matres â staeniau arni yn un o'r cilfachau cleifion, a dylid cael gwared arni. Dylid archwilio pob matres yn rhan o raglen archwilio matresi i sicrhau nad oes staeniau arnynt er mwyn lleihau'r risg o halogiad cymaint â phosibl.

Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff

Yn gyffredinol, roedd aelodau'r staff y siaradwyd â hwy wedi cael hyfforddiant ar reoli heintiau o fewn y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth y staff am arferion hylendid dwylo yn anghyson. Nid oedd yr holl staff yn sicr ynglŷn â pha bryd y mae'n briodol golchi eu dwylo, defnyddio gel/ewyn alcohol a phryd i wisgo menig.

Canfuwyd bod gwybodaeth y staff am ddadhalogi cyfarpar yn dderbyniol.

Cynhelir archwiliadau hylendid dwylo ar y ward, ond nid yw'r staff yn cael gwybod am y canlyniadau. Dylai'r staff gymryd rhan yn yr archwiliadau hyn, a chael gwybod am y canlyniadau, fel y gellir rhoi sylw i unrhyw faterion mewn modd prydlon.

2.4 Ward W, Trawma ac Orthopedig

Yr Amgylchedd

Canfuwyd bod safon glanweithdra'r ward yn dda. Roedd ystafelloedd megis yr ystafell amlbwrpas eitemau budron wedi'u trefnu'n dda.



- Archwiliwyd y comodau ar y ward a chanfuwyd eu bod i gyd yn lân ac yn barod i'w defnyddio. Mae'r ward wedi buddsoddi mewn tâp a osodir o amgylch y comôd i ddangos ei fod yn barod i'w ddefnyddio, ac mae'n ymddangos bod hyn yn gweithio'n dda.



- Gwelwyd stôl droed a oedd wedi rhwygo'n wael, gan ganiatáu i hylifau, baw a bacteria dreiddio i'r defnydd. Dylid ei hailorchuddio neu osod defnydd anhydraidd arni fel y gellir ei glanhau'n briodol.



- Mae ystafell ymolchi ar y ward wedi'i dynodi'n storfa erbyn hyn, yn hytrach nag ystafell ymolchi, ond mae'r toiled yn dal i fod yn yr ystafell. Dylid cael gwared ar y toiled os mai storfa yw'r ystafell hon bellach.

Nid oedd digon o sinciau golchi dwylo clinigol ar gael ar gyfer nifer y gwelyau ar y ward, ac nid yw hyn yn dderbyniol. Er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol, dylid sicrhau bod sinciau golchi dwylo clinigol ychwanegol ar gael ar y ward drwyddi draw.

Nid yw'r sinc golchi dwylo yn yr ystafell glinigol yn dderbyniol gan nad yw'n cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd (HTM) 64. Dylai'r tapiau ar bob sinc golchi dwylo glinigol fod yn rhai a weithredir gan yr arddwrn neu'r penelin, neu gan synhwyrdd. Dylai fod yn rhwydd agor neu gau'r tapiau heb halogi'r dwylo.

Canfuwyd bod yr ystafell ddomestig yn anniben a bod y cyfarpar yn llychlyd. Dylai'r staff sicrhau bod yr holl gyfarpar domestig yn cael ei storio'n lân ac nad oes eitemau amhriodol yn yr ystafell.

Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog

Roedd yr holl ddillad gwely a llieiniau glân ar y ward yn cael eu cadw'n briodol mewn man dynodedig lle nad oedd unrhyw eitemau amhriodol. Roedd dillad gwely a llieiniau budron yn cael eu cadw ar wahân mewn bagiau cod lliw a'u storio mewn man priodol cyn eu gwaredu.



- Canfuwyd bod yr ystafelloedd cadw dillad gwely a llieiniau, gwastraff a gwastraff clinigol yn fudr.

Nid oedd posteri ynglŷn â gwastraff ar gael ar y ward yn rhoi gwybod i'r staff sut i wahanu gwastraff yn briodol. Dylid arddangos posteri ynglŷn â gwastraff er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer trin a gwaredu gwastraff yn briodol.

Canfuwyd nifer o flychau eitemau miniog ar y ward heb ddyddiad a llofnod arnynt. Dylai'r staff sicrhau bod yr holl flychau eitemau miniog wedi'u labelu'n gywir.

Cyfarpar a Storfeydd

Yn gyffredinol, canfuwyd bod y cyfarpar ar y ward yn lân a bod y teclynnau'n cael eu cadw'n ddiogel ac yn briodol, ond roedd y troli dadebru'n llychlyd. Roedd rhaglenni glanhau wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau bod y staff yn deall ac yn gwybod pwy ddylai lanhau beth a pha bryd.

Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff

Yn gyffredinol, roedd aelodau'r staff y siaradwyd â hwy wedi cael hyfforddiant ar reoli heintiau o fewn y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth y staff am arferion hylendid dwylo yn anghyson. Roedd y staff yn dueddol o orddefnyddio menig a dibynnu arnynt ar gyfer pob cyswllt â chleifion. Dylid hyfforddi'r staff ynglŷn â pha bryd y mae'n briodol golchi eu dwylo, defnyddio gel/ewyn alcohol a phryd i wisgo menig.

Canfuwyd bod gwybodaeth y staff am ddadhalogi cyfarpar yn dda.

Cynhelir archwiliadau hylendid dwylo ar y ward, ond nid yw'r staff yn cael gwybod am y canlyniadau. Dylai'r staff gymryd rhan yn yr archwiliadau hyn, a chael gwybod am y canlyniadau, fel y gellir rhoi sylw i unrhyw faterion mewn modd prydlon.

Sylwadau Cyffredinol

Roedd yn siomedig nodi'r diffyg gwelliant yn Ward F, Adsefydlu ar ôl Strôc, a byddwn yn cyfarfod â'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod camau gwella'n cael eu cymryd fel mater o flaenoriaeth.

Yn ogystal, roedd nifer o'r materion a nodwyd yn gyffredin i bob un o'r tair ward yr ymwelwyd â hwy, megis:

- Dim digon o sinciau golchi dwylo clinigol ar gael ar gyfer nifer y gwelyau ar y ward.
- Ystafelloedd domestig aflêr, lle'r oedd cyfarpar budr ac eitemau amhriodol yn cael eu cadw.
- Dim posteri ynglŷn â gwastraff yn cael eu harddangos ar y wardiau.
- Gwybodaeth y staff yn anghyson ynglŷn â gweithdrefnau hylendid dwylo.

Rydym yn pryderu y gallai'r rhain fod yn broblemau sy'n codi trwy'r ysbyty i gyd, ac o ganlyniad, rydym yn mynnu bod y Bwrdd Iechyd yn cynnal ei archwiliad ei hun o bob un o'r wardiau yn Ysbyty Treforys, ac yn cyflwyno adroddiad i ni o fewn chwe mis.